# IS-BWYLLGOR IAITH, 06.03.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr Eric M. Jones a'r Cynghorydd Dyfed Edwards (aelod ex-officio).

**Swyddogion:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Morwena Edwards (Pennaeth Darparu a Hamdden), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio (Polisi)), Ruth Richards (Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Llinos Merks a Sion S.Roberts; Debbie Williams Jones (Swyddog Hyrwyddo Iaith).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATER BRYS

Dosbarthwyd copïau o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru "*Mwy na geiriau* ...", sef Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Adroddodd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith, er nad oedd hyn yn fater brys fel y cyfryw, bod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd sylwadau ar y ddogfen erbyn 30 Ebrill, 2012. Eglurodd mai dyma'r ddogfen y bu'r Swyddog Hyrwyddo Iaith yn cyfrannu ati dros y misoedd diwethaf ac 'roedd y Swyddog Hyrwyddo Iaith a hithau eisoes wedi trafod y cynnwys gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, ceisid barn fwy corfforaethol ar y ddogfen hefyd a gofynnwyd i'r aelodau basio unrhyw sylwadau ymlaen i'w sylw cyn y dyddiad cau. Opsiwn arall fyddai galw cyfarfod arbennig o'r is-bwyllgor i drafod y ddogfen.

Cytunwyd y byddai'n syniad galw cyfarfod arbennig o'r is-bwyllgor gan y byddai'r ymateb yn gryfach petai'r aelodau yn dod i gasgliad ar y mater fel pwyllgor.

**PENDERFYNWYD galw cyfarfod arbennig o'r is-bwyllgor hwn ar 17 Ebrill i drafod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru "*Mwy na geiriau* ..."**

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r is-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2011 fel rhai cywir.

## 4. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cynllunio (Polisi) yn manylu ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, yn gosod y cyd-destun, yn esbonio sut y rhoddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth baratoi'r cynllun ac yn amlinellu'r broses hyd yma ynghyd â gwaith pellach i'w gyflawni.

Nodwyd bod angen mwy o wybodaeth ynglŷn â'r asesiad effaith iaith, ei rym a'i statws. 'Roedd yn mynd i fod yn bwysig iawn mewn penderfyniadau pellgyrhaeddol, a phe na allai gael dylanwad, byddai'n offeryn di-rym. Cydnabyddid ei bod, o bosib', yn gynnar yn y broses, ond os mai dyma fyddai'n gyrru egwyddorion y Cyngor parthed y Gymraeg, 'roedd yn bwysig cael gwybod mwy amdano ynghyd â manylion beth mae'n mynd i'w drafod a'r amserlen.

Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Cynllunio (Polisi) fod fersiwn drafft dechreuol o'r asesiad yn ei le eisoes. Bwriedid sefydlu grŵp bychan i sicrhau bod y fethodoleg gywir yn ei lle a gellid dod â'r fethodoleg gerbron yr is-bwyllgor hwn maes o law.

Nododd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith fod yr asesiad iaith yn ddogfen fyw sy'n datblygu ochr yn ochr â'r cynllun ei hun ac yn gyfrwng i adnabod unrhyw broblemau wrth iddynt godi gan hefyd gryfhau ac ychwanegu gwerth.

Nodwyd bod dogfen dystiolaeth y CDLL ar y Cyd wedi nodi bod bodolaeth llai o ardaloedd lle mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn fater sydd angen sylw yn y Cynllun. Mynegodd y Cadeirydd ei bryder y byddai ffigurau Cyfrifiad 2011 yn debygol o fod yn rhai echrydus, h.y. y byddai ardaloedd lle mae mwy na 70% yn siarad Cymreag yn brin iawn. Pwysleisiodd fod angen cryfhau TAN 20 mewn rhyw fodd, er mwyn gwella'r teclynnau sydd ar gael i'r system gynllunio defnydd tir i fynd i'r afael yn effeithiol â'r sefyllfa. Byddai angen dylanwadu mewn rhyw fodd ar y Llywodraeth i wneud hynny.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar yr angen i ledaenu'r twf oherwydd y gallai hynny fod yn fwy sensitif i anghenion yr iaith Gymraeg a phwysleisiodd y dylai'r raddfa twf a'r strategaeth o ran lledaenu'r twf fod yn destun asesiad ieithyddol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cynllunio (Polisi) fod y gwaith o adnabod y raddfa twf tai posibl a'r cyfeiriad cyffredinol o ran dosbarthiad y twf hwnnw wedi bod yn destun Arfarniad Cynaladwyedd. 'Roedd yr AC wedi adnabod yr angen i warchod, hyrwyddo a gwella'r profiad o'r iaith Gymraeg fel un o'r amcanion cynaladwyedd. Cafwyd cadarnhad y byddai'r fethodoleg asesiad effaith iaith Gymraeg yn cael ei gymhwyso wrth fynd ati i ddatblygu polisïau manwl yn y Cynllun a fyddai'n hyrwyddo mathau penodol o ddatblygu a lleoliadau datblygu.

Nododd y Cadeirydd y byddai amgylchiadau yn newid dros gyfnod paratoi'r cynllun a bod rhaid mynnu bod clust yn cael ei roi i'r iaith Gymraeg ar lefel lywodraethol yn ogystal â sirol.

Yna holodd y Cadeirydd tybed a oedd y cynllun hwn yn cynnig y cyfle i adfer yr amod lleol ar dai gan fod hynny'n fodd o sicrhau bod yna ganran sylweddol o dai yn mynd i Gymry Cymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cynllunio (Polisi) y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i gwestiynau megis pa fathau o dai sydd eu hangen ac a oes tystiolaeth i gefnogi llunio polisi ar gyfer tai marchnad agored lleol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 5. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion diweddaraf i law yn ymwneud â'r Cyngor a chyrff eraill, ynghyd â'r ymateb ymhob achos.

Trafodwyd y materion a ganlyn yn benodol:-

(A) Cwynion yn erbyn y Cyngor

(i) Gan gyfeirio at y cwynion ynglŷn â methiant y Cyngor i gynnig fersiwn Saesneg yn unig o ddeunydd gyda chylchrediad eang, awgrymwyd nad oedd angen i'r Cyngor ymddiheuro am hynny gan fod polisi'r Cyngor o anfon deunydd gyda chylchrediad eang yn ddwyieithog yn hollol glir.

(ii) Gan gyfeirio at y cwynion ynglŷn â threfniadau cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid, mynegwyd pryder bod diffyg llwyr yma ac nad oedd gan y trefnwyr unrhyw syniad ynglŷn â Pholisi Iaith y Cyngor.

Nododd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith y byddai hi a'r Swyddog Hyrwyddo Iaith yn trafod y dulliau gorau o godi ymwybyddiaeth iaith gyda'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ac yn adrodd yn ôl i'r is-bwyllgor hwn.

Nododd y Cadeirydd fod diffyg cyfieithu-ar-y-pryd mewn cyfarfodydd yn broblem gynyddol, oedd yn treiddio i gyfarfodydd llywodraethwyr ysgolion hyd yn oed erbyn hyn. 'Roedd yn anodd perswadio trefnwyr cyfarfodydd i ddarparu gwasanaeth cyfieithu o gwbl, heb sôn am dalu amdano, ac 'roedd yna enghreifftiau o un person di-Gymraeg ar gorff llywodraethu a'r ysgol yn ei chael yn anodd cyfiawnhau'r gost o ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer un person yn unig yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

(iii) Gan gyfeirio at y gŵyn gan Bartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd ynglŷn â chyflwyniad uniaith Saesneg, nododd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith y derbyniwyd ymateb gan yr adran yn ddiweddar iawn yn nodi y bu camddealltwriaeth ynglŷn â gofynion y cyfarfod. Fodd bynnag, disgwylid y byddai unrhyw adran o'r Cyngor sy'n trefnu cyfarfod o'r fath yn cymryd mai Cymraeg fyddai'r iaith. Gan hynny, bwriadai ddilyn hyn i fyny ymhellach gyda'r adran.

(iv) Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod rhai o'r cwynion yn erbyn y Cyngor yn amlygu'r ffaith nad oedd swyddogion wedi dilyn y Polisi Iaith. Yn wyneb hynny, awgrymodd y dylai methiant unrhyw aelod o'r staff i barchu a chefnogi Polisi Iaith y Cyngor gael ei amlygu yn y broses werthuso staff flynyddol. 'Roedd y broses werthuso eisoes yn cyfeirio at barchu polisïau'r Cyngor, ac yn y cyswllt hwn, dylid cyfeirio'n benodol at y Polisi Iaith.

Nododd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith fod yna gyfle hefyd i amlygu meysydd lle mae yna broblem neilltuol yn yr adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn bryderus ynglŷn â'r sefyllfa, oherwydd os na ellid cael hyn yn iawn yn y Cyngor hwn, sut fyddai modd gwneud hynny yn y cyd-destun ehangach wrth gydweithio a phreifateiddio gwasanaethau.

(B) Cwynion yn erbyn cyrff eraill

(i) Nododd y Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith, yn dilyn paratoi'r adroddiad, y derbyniwyd llythyr gan Gyngor Cymuned Pentir yn holi ynglŷn â'r diweddaraf parthed y gŵyn ynglŷn ag arwyddion ar flaen cerbydau Bysus Padarn a'r diffyg Cymraeg ar docynnau'r cwmni. Gan fod y cwmni bysiau yn rhoi'r un atebion dro ar ôl tro, 'roedd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig wedi awgrymu bod cynrychiolwyr

o'r Is-Bwyllgor Iaith yn cyfarfod rheolwr y cwmni wyneb yn wyneb er ceisio datrysiad i'r sefyllfa.

(ii) Cyfeiriodd y Cadeirydd at fater a gododd yn y cyfarfod diwethaf, sef y defnydd o'r llythrennau "*WC*" fel arwydd toiledau, yn hytrach na'r symbolau sy'n dynodi amlinell o ddyn a dynes.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ei bod wedi cysylltu ag Uned Iaith Llywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith ynglŷn â hyn ac y byddai'r mater yn derbyn sylw pellach.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng rheolwr Cwmni Bysus Padarn, Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Iaith a'r swyddogion perthnasol.**

**6. ADRODDIAD CYNLLUN PENCAMPWYR IAITH CANOLFANNAU HAMDDEN Y FRO GYMRAEG**

Cyflwynodd y Pennaeth Darparu a Hamdden adroddiad y Swyddog Hyrwyddo Iaith ar sefydliad y cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg, yn amgáu:-

- copi o'r Llawlyfr fyddai'n gyfrwng cefnogaeth ac arweiniad pellach i'r Pencampwyr Iaith wrth iddynt gychwyn ar eu gwaith o weithredu'r rôl yn y gweithle.
- Yr adroddiad terfynol ar y cynllun yn cynnwys manylion am y Pencampwyr Iaith ymhob sir sy'n rhan o'r cynllun, sut y bu i'r hyfforddiant gwrdd â'r amcanion a adnabuwyd ar gyfer y cynllun, adborth gan y Pencampwyr o'r sesiynau hyfforddiant ynghyd â gwybodaeth am rai o ymrwymiadau'r Pencampwyr Iaith.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Nodwyd bod hwn yn gynllun gwych a chroesawyd y cydweithio rhwng y pedair sir.
- Pwysleisiwyd mai ar y lefel yma y gellir gwneud gwahaniaeth a bod hwn yn faes sy'n gallu bod yn rhan o'r newid patrwm ieithyddol.
- Bod y Pencampwyr Iaith mewn sefyllfa i gael dylanwad ar bobl ifanc oherwydd y statws sydd ganddynt.
- Bod rhaid gochel rhag ticio'r bocsys yn unig a bod angen gwireddu o ran y disgwyliadau.
- Y byddai'r Pencampwyr Iaith yn fodd o ddylanwadu ar y cyrff rheolaethol yn y byd chwaraeon sy'n aml yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Gofynnwyd i'r is-bwyllgor gytuno i dderbyn adroddiad cynnydd ar waith y Pencampwyr Iaith yn ddiweddarach a chytunwyd y byddai'n briodol i adrodd yn ôl ymhen tua blwyddyn.

Awgrymwyd y byddai'n ddiddorol clywed gan un o'r pencampwyr ar y diwrnod.

Nodwyd bod Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor yn datblygu'r Termiadur ar ei drydedd wedd ac awgrymwyd bod y swyddogion yn cysylltu â Delyth Prys o'r Ganolfan i gael copi o'r termau chwaraeon diweddaraf.

Yna trafodwyd:-

- Y posibilrwydd o ymestyn y Cynllun Pencampwyr Iaith i feysydd eraill o fewn y Cyngor, megis gofal cartref.

- Pwysigrwydd datblygu mwy o lwybrau gyrfa yn y sector chwaraeon drwy'r Gymraeg gan fod hynny'n amlwg yn rhoi hyder i'r gweithlu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg. Cyfeiriwyd at y cyfleoedd sydd ar gael drwy'r ysgolion a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod yna ddilyniant o'r ysgolion i'r colegau.
- Dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun, e.e. diwrnod gwobrwyo. Hefyd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid gofyn i'r Uned Gyfathrebu roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun, e.e. yn y papurau bro, drwy dynnu sylw pobl at y ffaith bod yna bencampwr iaith yn eu canolfan hamdden leol.

I gloi, nododd y Cadeirydd fod hwn yn gynllun cynhyrfus a hynod flaengar a chroesawodd y cydweithio gyda'r cynghorau eraill, sydd, fel Gwynedd, yn dioddef fwy na neb arall o safbwynt colli'r iaith. Mynegodd ei obaith y gellid adfer rhywfaint ar y sefyllfa ac y byddai'r is-bwyllgor hwn yn dathlu llwyddiant y fenter ymhen 12 mis.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cytuno i gyflwyno'r adroddiad terfynol ar y cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg gerbron Bwrdd yr Iaith Gymraeg.**

**(c) Cytuno i dderbyn adroddiad cynnydd ar waith Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd ymhen tua blwyddyn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.35am.